Bwrdd Cyflawni *Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach*

20 Mai 2021

Cyd-hysbysiad

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Bwrdd Cyflawni *Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach* ar 20 Mai 2021. Mae'r bwrdd hwn, sy'n cael ei gadeirio gan Darren Hughes (Cyfarwyddwr Conffederasiwn GIG Cymru), yn parhau i chwarae rôl allweddol yn y gwaith o lywio hynt y Weledigaeth Fferylliaeth.

Yn y cyfarfod diweddaraf hwn, canolbwyntiodd y Bwrdd ar adolygu'r ceisiadau am gyllid ar gyfer 2021-22. Nod y cyllid yw cefnogi nifer bach o brosiectau arloesol lleol sy'n gydnaws â *Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach.*

Ceisiadau am gyllid Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach: 2021-22

Cafodd 17 o geisiadau eu cyflwyno; ac yn sgil y broses sifftio cychwynnol, daethpwyd â 7 gerbron y cyfarfod a'u hargymell ar gyfer cael cyllid. Cafodd pob prosiect unigol ei ystyried, gan drafod sut yr oedd yn cyflawni'r nodau yn *Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach;* ei ddulliau arfaethedig ar gyfer mesurau canlyniadau; a'i uchelgais o ran arloesi. Mae'r Bwrdd yn cefnogi pob prosiect yn llawn, ac roedd yn fodlon cymeradwyo pob un o'r saith a drafodwyd. Cafodd pob ymgeisydd wybod am y canlyniad erbyn dydd Gwener 28 Mai.

Roedd y Bwrdd yn falch o allu nodi'r effeithiau y byddai nifer o'r prosiectau yn eu cael ar brofiad y claf, ei ganlyniadau, a'i ansawdd bywyd.

Ceisiadau am gyllid Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach: adroddiadau diwedd y flwyddyn 2020-21

Trafodwyd yr adroddiadau diwedd y flwyddyn a oedd yn deillio o geisiadau llwyddiannus y llynedd. Nodwyd y gellid dysgu nifer o wersi pwysig o'r grŵp cyntaf o geisiadau llwyddiannus, gan gynnwys pwysigrwydd cael cynllun wrth gefn ar gyfer diwedd cyfnod cyllido.

Mae'r Bwrdd yn awyddus i sicrhau bod yr hyn a ddysgir o'r prosiectau hyn yn cael ei rannu'n eang ar draws y proffesiwn fferylliaeth, a hefyd ein cydweithwyr rhyngbroffesiynol; a chysylltir â thimau prosiectau i drafod sut y gallai eu prosiectau gyfrannu at lwyddiant y broses fabwysiadau mewn modd sy'n sicrhau canlyniadau llwyddiannus i gleifion yn gyffredinol ledled Cymru.

Er mwyn helpu i sicrhau tryloywder o ran y gweithgareddau sy'n mynd rhagddynt i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein nodau, codwyd cam gweithredu ar gyfer datblygu a chynnal Adnodd Tracio Prosiectau *Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach,* a fyddai ar gael ar wefan *Fferylliaeth: Cyflawni Cymru,* sy'n cael ei hadeiladu ar hyn o bryd,.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd Cyflawni *Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach* **ddydd Iau 17 Mehefin 2021 0930-1100.** Bryd hynny, bydd yn canolbwyntio ar y thema Datblygu'r Gweithlu Fferylliaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni drwy e-bostio:
Pharmacy.DeliveryBoard@llyw.cymru